# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 16 May 2018. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Mark Barnes | **Tel:** 07590 005692 |
| **Ward:** Newtown Llanwchaiarn West | **Mobile:** 07590 005692 |
| **Shire:** Montgomeryshire | **Email:** cllr.mark.barnes@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Conservatives | **Date:** September, 2018 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
https://powys.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Go&UID=573
I was Chair of the Employment and Appeals Committee.

I served on the following outside organisations:
Newtown High School Governing Body
Penygloddfa CP School Governing Body

**Section 2: Constituency activity**

Since my election in May 2017, I have prioritised the issues that were discussed on the doorstep during campaigning. These include –

- Installing three benches in Dolerw Park. These requested by more senior members of our community who need a break halfway when walking from home to the town centre. These also allow everyone to stay and enjoy the wonderful asset that we enjoy in our ward that is Dolerw.
- Highlighted the importance of picking up dog mess. This was delivered via a social media campaign and newspaper articles. I also walked around the ward and put up posters requesting more consideration from dog walkers. I also, as requested by residents, spoke to a couple of well-known offenders.
- I have also run a newspaper campaign appealing for residents to keep their own spaces outside of their home free from litter and weeds. Cognisant that PCC will not be able to offer the same level of street cleaning as they did a year or two ago, the issue of litter will remain a high-profile discussion as the Newtown community as a whole will need to take their role in keeping the town presentable. I have also arranged weed-killing around the ward which was delivered by PCC
- Lobbied for repairs to Longbridge and gained support for significant repairs to be carried out by the, then, relevant portfolio holder. These ambitions were eventually reduced significantly, but my efforts in this area did result in a cleaning of the bridge which improved the look of the bridge, at least to some degree.
- Car parking in the area around Crescent Street and Bryn Street was a major discussion during my first year. In this time, I held repeated meetings with officers to understand the reasons for the car related issues that the area suffers from. I also held two, extremely well attended resident meetings to understand their concerns and undertook consultation both via social media and also by two letter-drops to the

resident's houses.
This consultation identified a clear response on the best way forward for the residents and this is leading to the introduction of a one-way system and additional strategic and sensitive double yellow lines. Highlighting the issue has also resulted in PCC creating three extra car parking spaces in the area.

My work at PCC's County Hall has really focussed on scrutinising the activity of the Council. You will see from my committees I have really prioritised my time around doing my best to try and ensure an efficient Council. I am a very vocal Councillor and I won't allow party politics to affect my decision making.

Other projects that I have also worked on include the following –

- Successfully lobbied on behalf of Penygloddfa CP to highlight the need for awareness of a 20mph speed limit in Commercial Street
- Along with Russell George, I have endeavoured to keep the issue of finishing the roads in the Brymor Parc at the forefront of the minds of PCC, Severn Trent and the contractor's representatives. I am very sympathetic to the needs of the homeowners in the area and, whilst action is so frustratingly slow it is almost unbearable, progress is still being made
- Held residents' meetings with the current Portfolio Holder to address the dangerous parking in Fron Lane that prevents emergency services reaching properties at the top of the lane.
- Raised on numerous occasions my ongoing fears for safety on school transport and the inability to enforce the wearing of seat-belts
- Helped to mediate in three neighbour disputes, offering the voice of reason and trying to help all parties to see both sides of the issue
- Addressed issues faced by at least three Council tenants
- Mediated between residents and owners on two issues at Llys Glan-Yr-Afon
- Signposted several residents on where to find the right level of support when required within PCC and NHS. This includes one severe and immediate time of need.

Moving forward, I am keen for residents to understand two things –

- The importance of participation in consultation opportunities. PCC will be facing increasingly difficult decisions over the next few weeks, months and years and it is vital that residents have their say.

I will continue to do my best on behalf of residents of Newtown West and Llanllwchaiarn and wider Powys and I will not accept a reduction in services without scrutinising how PCC decided to consider a cut.

- I am always available for one to one and group meetings. I can always be contacted on 07590 005692 or via cllr.mark.barnes@powys.gov.uk

**Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
https://powys.moderngov.co.uk/mgListTraining.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Find&UID=573&RPID=2225302

**Section 4: Outside organisations and other activities**

None

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 16 Mai, 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd**: Mark Barnes | **Ffôn:** 07590 005692 |
| **Ward:** Gorllewin Llanllwchaearn Y Drenewydd | **Ffôn symudol:** 07590 005692 |
| **Ardal:** Sir Drefaldwyn | **E-bost:** cllr.mark.barnes@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Ceidwadwyr Cymru | **Dyddiad:** Medi 2018 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
https://powysw.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Go&UID=573
Roeddwn yn Gadeirydd y Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau.

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Y Drenewydd
Corff Llywodraethu Ysgol G G Penygloddfa

**Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth**

Ers fy ethol ym mis Mai 2017, rwyf wedi blaenoriaethu'r materion a drafodwyd ar garreg y drws yn ystod yr ymgyrchu. Mae'r rhain yn cynnwys -

- Gosod tair mainc ym Mharc Dolerw. Gofynnwyd am y rhain gan aelodau hynaf ein cymuned sydd angen egwyl ar safle hanner ffordd wrth gerdded o'u cartrefi i ganol y dref. Mae'r rhain hefyd yn caniatáu i bawb aros a mwynhau'r ased gwych yr ydym yn ei fwynhau yn ein ward sef Dolerw.
- Pwysleisio pwysigrwydd codi baw cŵn. Cyflwynwyd hyn trwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau papur newydd. Roeddwn hefyd wedi cerdded o amgylch y ward a chodi posteri yn gofyn am fwy o ystyriaeth gan bobl yn cerdded eu cŵn. Yn unol â cheisiadau gan drigolion, rwyf hefyd wedi siarad gydag ambell droseddwr adnabyddus o ran hyn.
- Rwyf hefyd wedi cynnal ymgyrch papur newydd yn apelio ar drigolion i gadw mannau y tu allan i'w cartref yn rhydd o sbwriel a chwyn. O ystyried y ffaith na fydd CSP yn gallu cynnig yr un lefel o wasanaeth glanhau strydoedd ag y gwnaethpwyd flwyddyn neu ddwy yn ôl, bydd sbwriel fel mater yn parhau yn drafodaeth sydd â phroffil uchel a bydd angen i gymuned Y Drenewydd wneud ei rhan yn gyffredinol i gadw'r dref yn daclus. Rwyf hefyd wedi trefnu gwaith lladd chwyn o amgylch y ward a gyflwynir gan CSP.
- Rwyf wedi lobïo am atgyweirio ar y Bont Hir ac wedi ennill cefnogaeth gan yr aelod portffolio perthnasol, ar y pryd, i gynnal atgyweiriadau arwyddocaol. Cafodd yr uchelgeisiau hyn eu lleihau'n sylweddol yn y pendraw, ond arweiniodd fy

ymdrechion yn y maes hwn at lanhau'r bont sydd wedi gwella ei golwg, o leiaf hyd at ryw raddau.

- Roedd parcio ceir yn yr ardal o amgylch Crescent Street a Heol y Bryn yn drafodaeth o bwys yn ystod fy mlwyddyn gyntaf. Yn yr amser hwn, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd cyson gyda swyddogion i ddeall y rhesymau dros faterion/anawsterau y mae'r ardal yn eu dioddef sy'n ymwneud â cheir. Rwyf hefyd wedi cynnal dau gyfarfod gyda llawer iawn o drigolion yn bresennol er mwyn deall eu pryderon a chynnal ymgynghoriad trwy gyfryngau cymdeithasol a thrwy bostio dau lythyr i dai trigolion.

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi dynodi ymateb clir i'r ffordd orau ymlaen i'r trigolion ac mae hyn yn arwain at gyflwyno system unffordd a llinellau melyn dwbl strategol a sensitif ychwanegol. Mae amlygu'r mater hefyd wedi arwain at CSP yn creu tri man parcio ychwanegol yn yr ardal.

Mae fy ngwaith yn Neuadd y Sir wedi canolbwyntio mewn gwirionedd ar graffu gweithgaredd y Cyngor. Fe fyddwch yn gweld o'm pwyllgorau, fy mod gwirioneddol wedi blaenoriaethu fy amser ynghylch gwneud fy ngorau i geisio sicrhau Cyngor effeithiol. Rwyf yn Gynghorydd llafar iawn ac ni fyddaf yn caniatáu i wleidyddiaeth pleidiau effeithio ar y penderfyniadau a wnaf.

Mae prosiectau eraill yr wyf wedi gweithio arnynt hefyd yn cynnwys y canlynol -

- Wedi lobïo'n llwyddiannus ar ran Ysgol G G Pengloddfa i amlygu'r angen am ymwybyddiaeth o gyfyngiad cyflymder 20 milltir yr awr ar Commercial Street
- Ynghyd â Russell George, rwyf wedi ymdrechu i gadw'r mater o orffen y ffordd yn Brynmor Parc ar flaen meddyliau CSP, Hafren Trent a chynrychiolwyr y contractwr. Rwyf yn cydymdeimlo llawer ag anghenion perchnogion cartrefi yn yr ardal, a thra bo'r gweithredu yn rhwystredig o araf nes ei fod yn annioddefol bron, mae cynnydd dal yn cael ei wneud
- Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd i drigolion gyda'r Aelod Portffolio presennol i drafod parcio peryglus ar Lôn y Fron sy'n atal gwasanaethau brys rhag cyrraedd eiddo ar ben y lôn.
- Rwyf wedi trafod fy ofnau parhaus o ran diogelwch ar gludiant ysgol a'r anallu i orfodi gwisgo gwregysau digelwch ar sawl achlysur
- Rwyf wedi helpu i gyfryngu mewn tri anghydfod rhwng cymdogion, gan gynnwys llais i geisio ymresymu a cheisio dal pen reswm gan ymdrechu i helpu pob parti i weld dau ochr y mater
- Rwyf wedi trafod materion/anawsterau a wynebir gan o leiaf tri o denantiaid y Cyngor
- Rwyf wedi cyfryngu rhwng trigolion a pherchnogion ar ddau fater yn Llys Glan-Yr-Afon
- Rwyf wedi cyfeirio nifer o drigolion ar le i ddod o hyd i'r lefel gywir o gefnogaeth pan fo angen o fewn CSP a'r GIG. Mae hyn yn cynnwys un preswylydd mewn amser o angen difrifol a di-oed.

Gan symud ymlaen, rwy'n awyddus i drigolion ddeall dau beth -

- Pwysigrwydd cyfranogiad mewn cyfleoedd ymgynghori. Bydd CSP yn wynebu penderfyniadau cynyddol anodd dros yr ychydig wythnosau, misoedd a blynyddoedd nesaf ac mae'n hanfodol fod trigolion yn cael dweud eu dweud. Byddaf yn parhau i wneud fy ngorau ar ran trigolion ward Gorllewin Y Drenewydd Llanllwchaearn a Phowys gyfan ac ni fyddaf yn derbyn gostyngiad mewn

| |
|---|
| gwasanaethau heb graffu sut yr oedd CSP wedi penderfynu ystyried toriadau.<br>• Rwyf ar gael ar unrhyw adeg ar gyfer cyfarfodydd un i un a chyfarfodydd grŵp. Gellir cysylltu â mi ar unrhyw adeg ar 07590 005692 neu trwy anfon e-bost at cllr.mark.barnes@powys.gov.uk |
| **Adran 3: Dysgu a Datblygu**<br><br>Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: https://powysw.moderngov.co.uk/mgListTraining.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Find&UID=573&RPID=2229267&LLL=1 |
| **Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**<br><br>Dim |